

Cyllideb Ddrafft 2021-22 – Ymatebion i Argymhellion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i sicrhau bod y rhai sydd fwyaf tebygol o weld yr effaith andwyol arnynt yn cael y lefel uchaf o gefnogaeth, ac i sicrhau nad oes neb yn syrthio drwy'r rhwyd fel petai. Rhaid cynnal yr ymrwymiad hwn drwy gydol pob gwaith cynllunio newydd o ran cefnogaeth ac adferiad.

Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn gwbl gefnogol o'r egwyddor drosfwaol o dargedu ymyriadau fel na chaiff neb ei adael ar ôl ac rydym yn parhau i wneud ein gorau glas i gyrraedd pawb. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, caiff llawer o'r cynhyrchion cymorth eu harwain gan alw ac felly, o safbwynt ymarferol, mae "sicrhau" yn heriol am fod yn rhaid i'r ymgeisydd wneud cais.

Mae'r pecyn cymorth £2 biliwn wedi'i ddylunio i fod yn fforddiadwy o ystyried y cyllid sydd ar gael. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn golygu na fydd pob busnes yn elwa ar y cymorth grant a ddarperir a bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau anodd am gymhwysedd. Yr ysgogiad economaidd dros gynnig cymorth ar gyfer COVID-19 i fusnesau yw sicrhau bod busnesau a oedd yn dda yn 2019 yn fusnesau da ar ôl y pandemig.

Darperir cylchoedd ariannu pellach Llywodraeth y DU ar sail ad hoc, gan ei gwneud yn fwy heriol i gynllunio ar draws blynyddoedd ariannol. Byddem yn hoffi gallu parhau i gynnig lefel debyg o gymorth i fusnesau ac unigolion yn y flwyddyn ariannol nesaf, ond byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU ddarparu'r cyllid angenrheidiol er mwyn gwneud hynny. Rydym wedi bod yn glir o'r cychwyn fod y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn ategu'r hyn a ddarperir gan Lywodraeth y DU.

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i gyflawni'r egwyddor hon wrth ddylunio a defnyddio cynlluniau cymorth cyllid.

Goblygiadau Ariannol

Darperir yr holl gymorth ar sail gwerth am arian a fforddiadwyedd o fewn y cyllidebau sydd ar gael.

Argymhelliad 2. Mae'r Aelodau'n poeni am y ffaith y gellid dehongli nad oedd yr holl gyllideb a oedd ar gael ar gyfer cymorth busnes o ran y pandemig wedi'i thynnu i lawr gan nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ei gwario. Os yw hyn yn wir dylai'r Llywodraeth nodi pam, ac os nad yw'n wir, mae angen i'r Llywodraeth egluro ei dull gweithredu yn glir.

Gwrthod

Rydym wedi ymrwymo mwy na £2bn o gymorth i fusnesau a, hyd yma, mae mwy nag £1.75 biliwn wedi eu cyrraedd does y 10 mis dan sylw. Mae hyn yn cynnwys 180,000 o grantiau gwerth £1.1bn wedi'u darparu drwy awdurdodau lleol a £520m wedi'i ddarparu drwy Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru, gyda mwy o daliadau'n cyrraedd busnesau bob dydd.

Rydym yn disgwyl y bydd yr holl gyllideb sydd wedi'i neilltuo hyd yma yn cael ei gwario a'i defnyddio ar draws yr amrywiaeth o ymyriadau economaidd. Rydym yn gobeithio cyflawni hyn, er ei fod yn heriol yng nghyd-destun cymorth a arweinir gan alw, cyd-destun COVID-19 sy'n newid ac, wrth gwrs, ystyriaethau gwerth am arian.

Fel Llywodraeth, byddwn yn cyhoeddi cynlluniau pellach yn fuan ar gyfer yr ymateb i COVID-19 a'r cymorth a ddarperir y tu hwnt i roi'r rhaglen frechu ar waith ledled y wlad. Ar ôl i'r achos busnes gael ei gyflwyno i Weinidogion, byddwn yn hapus i roi rhagor o fanylion i'r pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer tynnu arian y gellid ei ddefnyddio ar gyfer rowndiau pellach o'r Gronfa Cadernid Economaidd, gan gynnwys esboniad yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau na cholir dim o'r arian hwn ar gyfer Cymru.

Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn gweithio i sicrhau na fydd Cymru'n colli dim o'r arian hwn. Mae cynllunio rhagweithiol a chynigion ar waith ac rydym wrthi'n asesu achosion busnes. Rydym yn disgwyl gwneud cyhoeddiadau pellach yn ystod yr wythnosau nesaf.

Fel rhan o Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ar gyfer 2020-21, mae Cymru wedi derbyn £660m yn ychwanegol, yn ogystal â'r gwarant ariannu £5.2bn, sy'n adlewyrchu ei chyfran Barnett o gyllid a gyhoeddwyd yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r cyllid hwn i 2021-22, ar ben Cronfa Wrth Gefn Cymru. Mae'r arian ychwanegol hwn wedi'i gynnwys yn y Gyllideb derfynol.

Roedd yn siomedigaeth, er gwaethaf cydnabod bod amgylchiadau eithriadol, nad oedd Llywodraeth y DU yn gallu darparu mwy o hyblygrwydd na chydabod yr angen i roi'r hyblygrwydd ychwanegol yr ydym wedi bod yn galw amdano gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys mynediad dirwystr i Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2021-22. Byddai'r mynediad hwnnw yn y flwyddyn ariannol nesaf wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd i'n gwaith cynllunio cyn i'r Senedd gymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Byddwn yn parhau i bwysu'r achos i Lywodraeth y DU.

Goblygiadau Ariannol

Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth y DU estyn yr hyblygrwydd mwyaf posibl i Lywodraeth Cymru o ran tynnu i lawr unrhyw gyllid cynyddol sy'n llifo o wariant sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn Lloegr.

Derbyn

Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu cymorth estynedig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

- Pe bai Llywodraeth y DU wedi rhoi setliad aml-flwyddyn i ni, byddai hynny wedi rhoi'r cyfle inni flaengynllunio ymhellach i'r dyfodol a chynnig rhywfaint o sicrwydd i wasanaethau a sefydliadau. Ni wnaed hyn, ond dyma yw'r opsiwn a ffefrir gennym o hyd a bydd angen i'r Llywodraeth nesaf barhau i wthio am hyn.
- Dim ond ar gyfer 2021-22 y mae gennym gynlluniau cadarn, am fod cylch gwario Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd y llynedd ond yn para blwyddyn. Mae'n anodd dweud ag unrhyw sicrwydd felly beth fydd y rhagolygon cyllidebol y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf.

Goblygiadau Ariannol

Dim

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y nifer sy'n manteisio ar y cyllid cymorth busnes sector-benodol a lanswyd ar 13 Ionawr, gan gynnwys manylion ynghylch faint sy'n manteisio arno o gymharu â'r disgwyliadau, a'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn ymwybodol o'r cynlluniau ac yn gallu gwneud cais amdanynt.

Derbyn

Agorodd cyfnod cyn-ymgeisio cronfa sector-benodol y Gronfa Cadernid Economaidd ganol mis Rhagfyr a dechreuodd dderbyn ceisiadau llawn ar 13 Ionawr 2021.

Caeodd ar 29 Ionawr 2021. Cafodd y pecyn ei dargedu at fusnesau lletygarwch, twristiaeth, hamdden a manwerthu nad ydynt yn hanfodol a busnesau cadwyni cyflenwi cysylltiedig y bydd effaith sylweddol o fwy na 60% ar eu trosiant o ganlyniad i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd ar 4 Rhagfyr 2020. Mae gwerth y grant yn seiliedig ar gost fesul swydd o £1,500 neu gostau gweithredu ar gyfer mis Rhagfyr a mis Ionawr, p'un bynnag yw'r isaf.

Cafwyd cyfanswm o 8,915 o geisiadau, gwerth £76.7m. Mae'r gyfradd gymeradwyo bresennol yn 75-80%.

Ar 23 Chwefror a hyd yma, derbyniwyd cyfanswm o 5,007 o gynigion, gwerth mwy na £45m i gyd.

Cronfa Cadernid Economaidd 4 - Cronfa Sector-Benodol	Micro	BBaCh	Mawr	CYFANSW M
Nifer y ceisiadau	7,510	1,376	29	8,915
Swm y ceisiadau	£41.7m	£33.1m	£1.9m	£76.7m
Cynigion a dderbyniwyd	4,062	926	19	5,007
Swm a dderbyniwyd	£23.5m	£20.2m	£1.3m	£45.0m
Swyddi a ddiogelwyd		19,243	2,980	22,223

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i fusnesau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg a gwefan Busnes Cymru, yr ymwelwyd â hi dros 8m o weithiau yn ystod y pandemig. Rydym hefyd yn manteisio ar rwydweithiau ein rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth, megis cyrff cynrychioliadol, contractwyr a phartneriaid.

Mae gwaith cynllunio rhagweithiol yn mynd rhagddo, fel rhan o estyniad i gronfa'r Sector.

Goblygiadau Ariannol

Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

Argymhelliad 6. O ystyried pryderon y Pwyllgor ynghylch sicrhau bod cymaint o ddefnydd â phosibl yn cael ei wneud o gymorth busnes, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa werthusiad cadarn a wnaed o effeithiolrwydd gwefan a gwasanaethau cymorth Busnes Cymru, er mwyn nodi unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i helpu busnesau i ddeall y gyfres gyfan o gefnogaeth a gynigir.

Derbyn

Penodwyd Dirnad Economi Cymru i gynnal asesiad effaith a gwerthusiad ar y Gronfa Cadernid Economaidd. Cyhoeddwyd adroddiad cam cyntaf "Ymyriadau ariannol Covid-19: Dadansoddiad o fuddiolwyr Cymru" ym mis Rhagfyr 2020.

Mae ymyriadau y Gronfa Cadernid Economaidd yr ymchwiler iddynt yn yr adroddiad hwn yn cynnwys grantiau busnes Cam 1 a 2 a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a Chynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru a reolir gan Fanc Datblygu Cymru. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ystyried y grantiau ardrethi annomestig a weinyddir gan awdurdodau lleol. Y canfyddiadau cychwynol yn yr adroddiad yw:

- Mae 2 Gam cyntaf y Fframwaith wedi darparu dros £200m o grantiau i gefnogi busnesau yng Nghymru. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cymorth a dalwyd drwy'r grant Ardrethi Annomestig o £770m a dalwyd i 64,000 o fusnesau.
- Mae cyfanswm y grantiau busnes o'r Gronfa Cadernid Economaidd wedi cefnogi bron i 12,000 o gwmnïau/sefydliadau yng Nghymru yn uniongyrchol a 125,000 o swyddi (amser llawn a rhan-amser), sy'n cynrychioli tua 10.5% o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru.
- Tua £15,620 oedd y cyllid cyfartalog a ddyfarnwyd fesul cais llwyddiannus gan BBaChau. Ar gyfartaledd, ychydig dros 77% o werth yr arian y gwnaed cais amdano gan gwmnïau yng Nghymru oedd y swm a gymeradwywyd ar gyfer busnesau bach a chanolig.
- Roedd bron i 80% o'r cwmnïau a dderbyniodd gyllid yn ficrofusnesau, a chafodd y cwmnïau hyn grant cyfartalog o bron i £10,000. Roedd cwmnïau bach yn cynnwys 18% o gwmnïau â chymorth gyda chyllid cyfartalog o bron i £31,000 y cwmni. Cwmnïau canolig eu maint oedd bron i 3% o'r cwmnïau a oedd yn derbyn cyllid, gyda grant cyfartalog o bron i £74,000. Derbyniodd cwmnïau mawr grant cyfartalog o tua £302,000.
- Gallai effeithiau ehangach y cymorth fod yn sylweddol, gyda miloedd lawer o swyddi pellach yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol mewn busnesau cysylltiedig drwy effeithiau'r gadwyn gyflenwi ac effeithiau gwario cyflogau.

Mae dau gam arall i waith Banc Buddsoddi Ewrop sy'n cynnwys elfen arolwg a gwerthusiad dilynol o effaith a chasgliadau a gynlluniwyd yn 2021 a dechrau 2022.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i symleiddio'r system a gwella'r mynediad at becynnau cymorth i fusnesau yn barhaus. Yn y cylch presennol o gyfyngiadau COVID-19, caiff cyllid a ddyrennir o dan y Gronfa Cadernid Economaidd ei dalu'n uniongyrchol i fusnesau ar ôl iddynt gwblhau cofrestriad/cais syml ar-lein. Mae'r data a gasglwyd am y Gronfa Cadernid Economaidd yn dangos bod cyllid wedi cael ei ddosbarthu'n deg ledled Cymru ac wedi cefnogi amrywiaeth eang o fusnesau.

Gellir cael gfael ar wasanaeth Busnes Cymru yn ddigidol drwy <http://busnescymru.llyw.cymru> a sianeli cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig; y llinell gymorth ar 03000 6 03000; a rhwydwaith o swyddfeydd wedi'u lleoli ledled Cymru. Yn ystod y pandemig, ymwelwyd â gwefan Busnes Cymru, <http://busnescymru.llyw.cymru>, fwy nag 8 miliwn o weithiau ac ymdriniodd â bron 50,000 o ymholiadau. Caiff y sianeli ar gyfer cael gfael ar gymorth eu hadolygu a'u mireinio'n rheolaidd, gan ystyried adborth gan gwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid.

Mae cyrraedd pobl yn bwysig iawn ac rydym yn parhau i ddatblygu ein dull gweithredu yn seiliedig ar werthuso annibynnol, adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gwybodaeth a gesglir gan bartneriaid a rhanddeiliaid. Er enghraifft, cyflwynwyd ein pecyn cymorth i'r sector tacsis yn dilyn ymgysylltiad uniongyrchol gan y sector a chynrychiolwyr ei undebau llafur; mae ein cynllun cyfathrebu diweddaraf yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos gydag enghreifftiau o fusnesau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i fusnesau a mynediad at y gwasanaeth, gan gynnwys datganiadau i'r wasg ac astudiaethau achos o blith cleientiaid. Mae Busnes Cymru'n cynnal ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol a lleol sy'n defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau gwahanol i gyrraedd cynulleidfa eang ac amrywiol, er enghraifft radio, dulliau digidol a dulliau ysgrifenedig fel y wasg, hysbysfyrddau a threnau/bysiau.

Rydym hefyd yn manteisio ar rwydweithiau ein rhanddeiliaid i hyrwyddo'r gwasanaeth a chodi ymwybyddiaeth, fel gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ar y grantiau sy'n gysylltiedig ag ardrethi annomestig, cyrff cynrychioliadol gan gynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach drwy ei aelodau, a chontractwyr Busnes Cymru sy'n darparu'r gwasanaeth cymorth craidd a'r Hybiau Menter. Mae Bwrdd Strategol Busnes Cymru'n cynnwys cynrychiolwyr o Sefydliad y Cyfarwyddwyr, y Ffederasiwn Busnesau Bach, busnesau bach a'r sector menter gymdeithasol sy'n hyrwyddo gwasanaeth Busnes Cymru ac yn hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael.

Yn hwyr yn 2020, aeth Llywodraeth Cymru ati i ail-gaffael darparwr allanol a'i gontractio i gynnal gwerthusiad annibynnol o foddhad cwsmeriaid â gwasanaeth Busnes Cymru. Mae'r gwerthusiad yn cynnal 300 o gyfweiliadau ffôn bob 6 mis. Mae'r arolwg yn cysylltu â chwsmeriaid Busnes Cymru sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth o fewn y chwe mis blaenorol ar yr adeg y bydd tîm yr arolwg yn cysylltu â nhw.

Hyd yma, drwy wasanaeth a gaffaelwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfweld â 2,400 o fusnesau sydd wedi defnyddio gwasanaeth Busnes Cymru. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf yn ystod haf 2020 a bydd yr arolwg nesaf yn cael ei gynnal yn ystod gwanwyn 2021.

Dyma'r canlyniadau cronol, ar draws gwasanaeth Busnes Cymru:

	Bodlon	Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	Anfodlon
Bodddhad Cyffredinol â'r gwasanaeth	85%	6%	9%
Pa mor barod ei gymorth oedd y Cynghorydd	88%	6%	6%
Gwybodaeth / Arbenigedd y Cynghorydd	90%	7%	3%
Diddordeb yn yr ymholiad	88%	6%	6%
Help roedd ei angen arnaf yn gyflym	81%	7%	12%
Wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am fy ymholiad	80%	9%	11%
Didueddrwydd	90%	6%	4%
Ansawdd y cyngor	86%	6%	8%

A fydddech yn argymhell y gwasanaeth i bobl eraill?	87%	5%	8%
---	-----	----	----

At hyn, mae adolygiad digidol wedi'i gomisiynu.

Goblygiadau Ariannol

Dim

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Pwyllgor ddadansoddiad o'r cymorth busnes a gynigiwyd yng Nghymru hyd yma, gan gynnwys: dadansoddiad o'r nifer sy'n derbyn pob cronfa; dadansoddiad o bobl â nodweddion gwarchoddedig sy'n eu derbyn; nifer y rhai sy'n derbyn cefnogaeth a ddarperir o'i gymharu â'r nifer disgwylidig; a chymhariaeth â'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghaneddloedd eraill y DU.

Derbyn

Roedd cam cyntaf y Gronfa Cadernid Economaidd yn cynnwys dwy brif elfen, sef Cynllun Benthyciadau Busnes COVID-19 Cymru gwerth £100m a ddarparwyd gan Fanc Datblygu Cymru, a chronfa argyfwng a ddyrannodd £200m i ddechrau ac yna £100m o gyllid i dargedu busnesau micro, BBaChau a busnesau mawr o bwysigrwydd cymdeithasol neu economaidd hanfodol i Gymru.

Cronfa Cadernid Economaidd 1	Micro	BBaCh	Mawr	DBW	CYFANS WM
Nifer y ceisiadau	6,857	2,565	61	1,608	11,091
Swm y ceisiadau	£66.6m	£131.2m	£30m	£103.0m	£330.8m
Cynigion a dderbyniwyd	4,897	2,049	44	1,331	8,321
Swm a dderbyniwyd	£48.1m	£76.3m	£14.3m	£92m	£230.7m
Swyddi a ddiogelwyd	13,186	43,082	13,873	16,038	86,179

Yn ystod ail gam y Gronfa Cadernid Economaidd, rhyddhawyd £100 miliwn pellach o gymorth ariannol. Fe'i targedwyd at fusnesau micro, BBaChau a busnesau mawr o bwysigrwydd economaidd hanfodol i Gymru nad oeddent eto wedi cael cymorth ariannol gan y Gronfa Cadernid Economaidd.

Cronfa Cadernid Economaidd 2	Micro	BBaCh	Mawr	CYFANS WM
Nifer y ceisiadau	5,987	679	15	6,681
Swm y ceisiadau	£58.7m	£38.2m	£3.1m	£100.0m
Cynigion a dderbyniwyd	4,300	479	14	4,793
Swm a dderbyniwyd	£42.4m	£15.7m	£2.5m	£60.6m
Swyddi a ddiogelwyd	8,672	9,875	3,180	21,727

Yn ystod y trydydd cam, rhyddhaodd y Gronfa Cadernid Economaidd bron £300m i fusnesau er mwyn eu helpu i ymdopi â heriau economaidd COVID-19 a'r cyfnod pontio yn sgil ymadawiad y DU â'r UE.

Cronfa Cadernid Economaidd 3 - Grantiau Datblygu Busnes	Micro	BBaCh / Mawr	CYFANSWM
Nifer y ceisiadau	4,393	1,455	5,848
Swm y ceisiadau	£41.9m	£164.5m	£206.4m
Cynigion a dderbyniwyd	1,185	812	1,997
Swm a dderbyniwyd	£11.5m	£34.7m	£46.2m
Swyddi a ddiogelwyd (ac a grëwyd)	5,055	20,092	25,147

Rhyddhaodd y pedwerydd cam £180m o Gymorth Sector-benodol (cost gweithredu) y Gronfa Cadernid Economaidd, wedi'i dargedu at fusnesau lletygarwch, twristiaeth, hamdden a manwerthu nad ydynt yn hanfodol a busnesau cadwyni cyflenwi cysylltiedig y bu effaith sylweddol o fwy na 60% ar eu trosiant o ganlyniad i'r cyfyngiadau.

Cronfa Cadernid Economaidd 4 - Cronfa Sector-Benodol	Micro	BBaCh	Mawr	CYFANSWM
Nifer y ceisiadau	7,510	1,376	29	8,915
Swm y ceisiadau	£41.7m	£33.1m	£1.9	£76.7m
Cynigion a dderbyniwyd	4,062	926	19	5,007
Swm a dderbyniwyd	£23.5m	£20.2m	£1.3m	£45.0m
Swyddi a ddiogelwyd		19,243	2,980	22,223

Mae'n anodd cymharu â rhanbarthau eraill y DU oherwydd diffyg cysondeb, ond fe'i hadolygir yng nghyd-destun pob achos busnes ac MA a gyflwynwyd.

2020 – Grantiau sy'n gysylltiedig ag Ardrethi Annomestig – Mawrth 2020 – 15/02/21

15.02.21	Grant 1: £10k	Grant 2: £10k	Grant 3: £2.5k	Grant 4: £5K	Grant 5: £1-4K	Grant 6: £1.5K/2k
Ynys Môn	£4,465,000	£17,730,000	£130,000	£600,000	£3,045,001	£387,000
Gwynedd	£12,990,000	£46,640,000	£255,000	£1,799,000	£8,854,000	£920,000
Conwy	£11,550,000	£28,629,000	£207,500	£1,290,000	£6,746,000	£931,500
Sir Ddinbych	£7,425,000	£22,740,000	£130,000	£820,000	£4,080,000	£646,500
Sir y Fflint	£8,600,000	£22,745,136	£232,500	£875,000	£3,746,000	£738,000
Wrecsam	£6,455,000	£18,490,000	£225,000	£710,000	£3,033,500	£708,500
Powys	£12,781,000	£40,886,610	£190,000	£1,395,000	£5,715,500	£343,500
Ceredigion	£8,027,060	£20,495,275	£157,500	£950,000	£2,957,000	£415,500
Sir Benfro	£12,200,000	£41,296,048	£257,500	£1,805,000	£5,054,000	£864,000
Sir Gaerfyrddin	£10,500,000	£36,000,000	£272,500	£1,045,000	£5,115,500	£908,000

Abertawe	£16,675,000	£33,760,000	£187,500	£2,215,000	£9,696,000	£848,500
Castell-nedd Port Talbot	£5,900,000	£22,357,000	£80,000	£690,000	£3,511,000	£496,000
Pen-y-bont ar Ogwr	£9,425,000	£20,580,000	£182,500	£960,000	£2,965,000	£898,000
Bro Morgannwg	£8,580,000	£17,147,000	£207,500	£1,150,000	£3,237,000	£577,500
Caerdydd	£29,620,000	£39,272,000	£402,500	£3,480,000	£5,669,000	£4,148,000
Rhondda Cynon Taf	£10,300,000	£33,560,000	£132,500	£1,285,000	£5,290,000	£817,500
Merthyr Tudful	£4,050,000	£9,191,500	£112,500	£460,000	£1,970,000	£363,000
Caerffili	£7,650,000	£26,488,100	£197,500	£835,000	£4,628,000	£1,047,500
Blaenau Gwent	£2,715,000	£13,103,947	£75,000	£210,000	£2,390,000	£420,500
Torfaen	£4,150,000	£13,755,000	£157,500	£425,000	£2,155,000	£519,500
Sir Fynwy	£8,975,000	£15,383,229	£142,500	£1,020,000	£1,686,000	£373,500
Casnewydd	£9,320,000	£21,241,201	£185,000	£860,000	£3,238,000	£909,500
Cymru	£212,353,060	£561,491,046	£4,120,000	£24,879,000	£94,781,501	£18,281,500

15.02.21	Grant 7: £3K	Grant 8: £5K Gwerth Ardrethol 21-50	Grant 9: £5k Gwerth Ardrethol 51+	Grant 10: £2k Dewisol	Cyfanswm	Cyfanswm Gwerth
Ynys Môn	£6,363,000	£1,185,000	£205,000	£282,000	6,156	£34,392,001
Gwynedd	£8,334,000	£1,745,000	£215,000	£1,024,000	13,848	£82,776,000
Conwy	£10,241,000	£3,085,000	£415,000	£1,042,000	11,028	£64,137,000
Sir Ddinbych	£6,264,000	£2,106,000	£160,000	£160,000	7,132	£44,531,500
Sir y Fflint	£5,283,000	£1,855,000	£140,000	£804,000	7,336	£45,018,636
Wrecsam	£3,053,000	£1,154,000	£82,000	£940,000	5,584	£34,851,000
Powys	£5,343,500	£1,345,000	£85,000	£130,000	9,577	£68,215,110
Ceredigion	£3,210,000	£955,000	£75,000	£540,000	5,741	£37,782,335
Sir Benfro	£8,298,000	£3,700,000	£285,000	£688,000	11,648	£74,447,548
Sir Gaerfyrddin	£10,206,000	£2,740,000	£-	£1,028,000	11,746	£67,815,000
Abertawe	£10,560,000	£4,325,000	£760,000	£324,000	13,134	£79,351,000
Castell-nedd Port Talbot	£2,769,000	£775,000	£55,000	£324,000	5,456	£36,957,000
Pen-y-bont ar Ogwr	£4,562,000	£2,210,000	£345,000	£258,000	6,532	£42,385,500
Bro Morgannwg	£4,629,000	£2,445,000	£170,000	£428,000	6,171	£38,571,000
Caerdydd	£4,050,000	£3,685,000	£1,005,000	£3,888,000	14,739	£95,219,500
Rhondda Cynon Taf	£10,845,000	£3,715,000	£205,000	£642,000	11,334	£66,792,000
Merthyr Tudful	£1,224,000	£385,000	£35,000	£330,000	2,797	£18,121,000
Caerffili	£6,756,000	£1,935,000	£130,000	£1,512,000	8,828	£51,179,100
Blaenau Gwent	£3,780,000	£425,000	£10,000	£380,000	4,054	£23,509,447
Torfaen	£3,435,000	£1,060,000	£160,000	£526,000	5,301	£26,343,000
Sir Fynwy	£3,468,000	£2,145,000	£175,000	£420,000	5,014	£33,788,229

Casnewydd	£4,704,000	£1,955,000	£310,000	£1,422,000	7,279	£44,144,701
Cymru	£127,377,500	£44,930,000	£5,022,000	£17,092,000	180,435	£1,110,327,607

Goblygiadau Ariannol

Dim

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i gefnogi busnesau wrth i gefnogaeth o ran COVID ddirwyn i ben, ac unrhyw gamau a gynlluniwyd i atal cau busnesau wrth i gynlluniau cymorth mawr gael eu dileu.

Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried cynllunio ar gyfer y dyfodol, a chaiff y manylion eu rhannu ar adeg briodol.

Goblygiadau Ariannol

Dim

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor beth yw'r dadansoddiad o'r arian a ddyrannwyd i linell gwariant yn y gyllideb Busnes Cymru, yn enwedig y rhaniad rhwng yr economi sylfaenol, ar gyfer canol trefi ac unrhyw godiadau ar gyfer Busnes Cymru ei hun.

Derbyn

Mae dadansoddiad o linell gwariant cyllideb Busnes Cymru yn 2021-22 wedi'i grynhoi yn y tabl isod:

Maes Cyflawni	£m
Busnes Cymru	4.747
Economi Sylfaenol	3.000
Mentrau Canol Trefi	3.000
Cyfanswm	10.747

Goblygiadau Ariannol

Dim

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi a gweithredu proses i sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau a werthusir drwy Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), a hynny o ran eu buddsoddiadau eu hunain a'r buddsoddiadau a ariennir drwy gyrrff eraill, yn cyfrannu at eu hamcanion polisi. Rhaid defnyddio WelTAG yn gywir, ac nid fel ymarfer ticio blychau i gefnogi amcan polisi a ffurfiwyd eisoes, a rhaid i opsiynau a gyflwynir i'w gwerthuso gael eu dewis yn effeithiol ac adlewyrchu strategaeth ac amcanion trafndiaeth Llywodraeth Cymru.

Derbyn

Byddwn yn adlewyrchu pecyn cymorth presennol WelTAG er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â strategaeth drafnidiaeth newydd Llywodraeth Cymru – Llwybr Newydd. Bydd y pecyn cymorth diwygiedig yn ystyried yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy sydd wedi'i chynnwys yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sy'n blaenoriaethu ymyriadau drwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a symud i gerbydau allyriadau isel cyn gosod y seilwaith newydd.

Goblygiadau Ariannol

Caiff hyn ei reoli o fewn y gyllideb bresennol.

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu dulliau monitro effeithiol a gwerthuso canlyniadau tymor hwy ar gyfer prosiectau a buddsoddiadau, gan gynnwys prosiectau teithio llesol. Dylai'r broses hon fod yn dryloyw a dylai lywio a darparu adborth yn glir ar gyfer canllawiau a'r broses o ddatblygu prosiectau, a'u cyflawni.

Derbyn

Bydd Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru yn cynnwys targedau ar gyfer cynyddu cyfran dulliau trafndiaeth gynaliadwy (pob taith) o'r lefel bresennol, sef 32% i 45% yn 2040. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i bennu sut y caiff hyn ei rannu rhwng teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Lleiafswm fydd y targed hwn a gaiff ei adolygu'n barhaus a'i gynyddu os bydd y dystiolaeth yn cyfiawnhau gwneud hynny. Mae monitro a gwerthuso eisoes wedi'u cynnwys ym proses WelTAG a chaiff hyn ei adolygu i gryfhau'r dull gweithredu. Rydym yn parhau i ddatblygu mesurau meintiol i gasglu ein cynnydd cyffredinol ac effeithiolrwydd ein buddsoddiadau. Ategir y rhain gan fetrigau ategol i roi darlun ehangach o bob mesur a chaniatáu dadansoddiad pellach yn ôl ffactorau modd, demograffig, economaidd-gymdeithasol a daearyddol lle y bo'n bosibl. Byddwn hefyd yn datblygu Arolwg Teithio Cenedlaethol i lenwi bylchau ac i ddeall gwahanol agweddau rhanbarthol ar deithio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Goblygiadau Ariannol

Disgwylir i oblygiadau ariannol newydd ddeillio o'r gwaith o fonitro a gwerthuso prosiectau a buddsoddiadau. Bydd yn rhaid blaenoriaethu hyn a'i reoli o fewn dyraniadau cyllideb presennol/yn y dyfodol.

Argymhelliad 12. Dylai'r gwaith monitro a gwerthuso a sefydlir, a hyrwyddir o dan Argymhelliad 9 hefyd gael ei ailwerthuso'n rheolaidd i sicrhau bod y broses yn parhau'n effeithiol, a'i bod yn parhau i gyflawni'r nodau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru. Dylid rhoi manylion y broses fonitro a gwerthuso newydd, ynghyd â'i chanlyniadau i'r Pwyllgor hwn neu ei olynydd yn y Chweched Senedd.

Derbyn

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ymrwmo i sefydlu Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth i fonitro a gwerthuso perfformiad Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni eraill wrth gyflawni'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth. Caiff Adroddiadau Perfformiad Blynyddol eu cyhoeddi a bydd y strwythur llywodraethu yn hwyluso gwaith craffu.

Goblygiadau Ariannol

Bydd yn rhaid blaenoriaethu hyn a'i reoli o fewn dyraniadau cyllideb presennol/yn y dyfodol.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi goblygiadau sefyllfaoedd gwahanol o ran cymhorthdal sy'n cefnogi adferiad trafndiaeth gyhoeddus i'r gyllideb, a rhoi sicrwydd bod y rhain yn fforddiadwy. Dylai nodi o ble y bydd unrhyw arian ychwanegol sy'n ofynnol gan bob senario yn dod, a nodi sut y bydd unrhyw ddyraniadau ychwanegol yn effeithio ar raglenni eraill.

Gwrthod

Mae gwaith modelu a rhagweld er mwyn asesu effeithiau COVID-19 ar gyfer y tymor byr a'r dyfodol yn parhau. Hyd y gellir rhagweld, mae'n debygol y bydd refeniw yn parhau'n is a bydd angen cymorth ychwanegol gan y sector cyhoeddus er mwyn cynnal lefelau gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n anodd rhagweld beth sy'n debygol o ddigwydd y tu hwnt i'r tymor byr a bydd hyn yn dibynnu ar yr adferiad economaidd, pa mor hir y bydd y cyfyngiadau'n para, ac agweddau'r cyhoedd tuag at ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus.

Goblygiadau Ariannol

Anhysbys, ond cânt eu rheoli o'r cyllidebau sydd ar gael.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod unrhyw gyfundrefnau cymhorthdal trafndiaeth gyhoeddus newydd yn cefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn llawn, ac nad ydynt yn cynnwys cymhellion gwrthnysig.

Derbyn

Bydd ein hasesiadau effaith integredig yn parhau i gael eu mireinio er mwyn ystyried effeithiau ehangach penderfyniadau polisi a chyfundrefnau cymhorthdal.

Goblygiadau Ariannol

Dim

Argymhelliad 15. Gyda phob cyfundrefn cymhorthdal newydd dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor neu ei Bwyllgor olynol yn y Chweched Senedd sut nad yw'r cynllun newydd yn creu cymhellion ac ystyriaethau gwrthnysig i'w sicrhau.

Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r ystyriaethau hyn yn rhan sylfaenol o'r broses o ddylunio a chyflawni ein cynlluniau cymorth ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus.

Goblygiadau Ariannol

Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu a chefnogi'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu eu rôl yn unol â'r hyn a nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad y llynedd, a dylai hyn gynnwys ailystyried o ran cyllid ar gyfer offer gwybodaeth am y farchnad lafur.

Derbyn mewn Egwyddor

Mae swyddogion polisi yn gweithio gyda swyddogion cyllid i nodi unrhyw gyllid ychwanegol y gellid ei gynnig i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i'w galluogi i barhau i ddatblygu yn unol ag argymhellion y Pwyllgor ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny. Caiff unrhyw gyllid ychwanegol ei reoli yn ystod y flwyddyn o gyllidebau presennol ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth.

Mewn perthynas ag Offer Rhyngweithiol i Ddadansoddi Gwybodaeth am y Farchnad Lafur, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried cyllidebau er mwyn pennu a ellir

cynnig cyllid i gefnogi'r gweithgarwch hwn. Dylid nodi bod Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eisoes yn gallu defnyddio'r offer hyn drwy eu trefniadau eu hunain, a byddem yn eu hannog i barhau i'w defnyddio eu hunain os na fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer caffael. Sut bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu cymuned ymarfer i ddefnyddwyr yr offer hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

Goblygiadau Ariannol

Gan nad oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gan ffynonellau y tu allan i Brif Grŵp Gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth, bydd yn rhaid i unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer y Partneriaethau a'r offer gwybodaeth am y farchnad lafur ddod o gyllidebau presennol o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru nodi o ble y byddai'r cyllid newydd i sefydlu'r bedwaredd Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn dod.

Derbyn mewn Egwyddor

Bydd y bedwaredd Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, i gynnwys awdurdodau lleol canolbarth Cymru, sef Ceredigion a Phowys, yn cael ei sefydlu ar ôl i dystiolaeth ddod i law i ddangos bod y gofynion allweddol ar gyfer pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi'u bodloni. Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y dystiolaeth, bydd trafodaethau am gyllid yn dechrau. Caiff Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru ei rheoli, yn ystod y flwyddyn, o gyllidebau presennol ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth, drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Ymgysylltu Polisi Sgiliau.

Goblygiadau Ariannol

Gan nad oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gan ffynonellau y tu allan i Brif Grŵp Gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth, bydd yn rhaid i unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer y bedwaredd Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ddod o gyllidebau presennol o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru nodi wrth y Pwyllgor sut y mae'n alinio'r cyllidebau unigol ar gyfer darpariaeth dysgu gydol oes yn strategaeth gydlynol, a pha ganlyniadau y mae'n disgwyl i'r cyllid hwn eu darparu.

Derbyn mewn Egwyddor

Mae 'dysgu gydol oes' yn cwmpasu amrywiaeth eang o raglenni addysg a hyfforddiant a gefnogir ac a ariennir gan y llywodraeth, gan gynnwys dysgu oedolion yn y gymuned, darpariaeth addysg uwch ac addysg bellach ran-amser ac i oedolion, a rhaglenni cyflogadwyedd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ehangu cyfleoedd dysgu gydol oes fel rhan o'n gweledigaeth strategol ehangach ar gyfer y Sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020. Er mwyn helpu i wneud cynnydd tuag at ein gweledigaeth, rydym wedi gofyn i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ymchwilio i systemau dysgu gydol oes cymharol yn ein siroedd, er mwyn nodi ble y pery rhwystrau i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant gydol oes yng Nghymru, a chynghori sut y gall ehangu dysgu gydol oes gefnogi amcanion polisi cymdeithasol ac economaidd yn y ffordd orau. Bydd rhan o'r adolygiad hwn yn cynnwys dadansoddiad cyffredinol gan Lywodraeth Cymru o'r cyllidebau ar wahân ar gyfer dysgu gydol oes ac, ar ôl i'r dadansoddiad hwn gael ei gynnal, byddwn yn hapus i'w rannu â'r Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Ddogfen Cyfrifoldebau Gweinidogol i gynnwys pa Weinidog sydd bellach â chyfrifoldeb am ddysgu gydol oes.

Gwrthod

Caiff yr ymadrodd '**dysgu gydol oes**' ei ddefnyddio'n aml fel term mantell ar gyfer ffurfiau ar **ddysgu** sydd y tu allan i'r system ysgolion.

Mae'r Gweinidog Addysg a Minnau (Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth) yn cydweithio'n agos ar y maes gwaith hwn ac yn rhannu Cyfarwyddiaeth sy'n cwmpasu Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes.

Mae'r ddogfen Cyfrifoldebau Gweinidogol yn nodi cyfrifoldebau'r Gweinidog Addysg, gan gynnwys ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau. Mae fy nghyfrifoldebau i (Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth) yn cynnwys Polisi Gyrfaoedd, Polisi Prentisiaethau a chyflawni yn y maes, darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a datblygu sgiliau'r Gweithlu, gan gynnwys Cronfa Ddysgu Undebau Cymru.

Mae gan gydweithwyr ym mhob rhan o'r Cabinet raglenni sy'n cyfrannu at y maes gwaith hanfodol hwn hefyd.

Goblygiadau Ariannol

Dim

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cwantwm cyfan y cyllid ymchwil a datblygu y mae'n ei ddarparu a'i wario, wedi'i ddadansoddi yn ôl meysydd gwariant a'r cyrff y mae'n cael ei ddsbarthu iddynt neu ei wario ganddynt.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn a bydd yn gweithio i ddarparu ymateb i'r pwyllgor ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei chasglu, na fydd yn digwydd cyn i'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22 gael ei chyhoeddi.

Goblygiadau Ariannol

Dim

Argymhelliad 21. Gan na fydd argymhellion adolygiad Reid yn cael eu gweithredu'n llawn cyn i'r DU adael yr UE mwyach, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei chynlluniau amgen ar gyfer disodli cyllid ymchwil ac arloesi yr UE.

Derbyn mewn Egwyddor

Roedd cyllid amnewidiol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE i fod i gael eu darparu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Pe byddem yn rhan o'r UE, byddai rhaglenni newydd yr UE wedi dechrau ar 1 Ionawr 2020 yn ogystal â diwedd rhaglenni 2014-2020, ond nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu unrhyw gyllid amnewidiol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin o hyd, ac nid yw ychwaith wedi cyhoeddi unrhyw gynlluniau ar gyfer sut y gallai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gael ei defnyddio. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi £220m yn 2021/22 ar gyfer pob rhaglen ar draws y DU gyfan, sy'n lleihad enfawr ar y £375m blynyddol y byddai Cymru wedi'i dderbyn pe bai yn yr UE. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatgan y dylai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru gael ei dosbarthu drwy Lywodraeth Cymru yn unol â'r setliad datganoli, yn bennaf am fod ymchwil ac arloesi yn un o'r meysydd a reolir orau ar sail Cymru gyfan. At ei gilydd, buddsoddodd Llywodraeth Cymru tua £380m mewn Ymchwil ac Arloesi drwy raglenni 2014-2020 yr UE yng Nghymru.

Mae ein dull gweithredu o ran cyllid amnewidiol ar gyfer cronfeydd yr UE wedi'i nodi yn y "Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru". Cafodd ei lunio mewn cydweithrediad â channoedd o sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys prifysgolion a sefydliadau preifat yn y sector ymchwil ac arloesi. Gwnaethom weithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i ddysgu am

arferion gorau rhyngwladol a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Cyhoeddwyd y Fframwaith ar 18 Tachwedd 2020:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-fframwaith_0.pdf

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu manylion y ffordd y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn cael ei defnyddio i roi ein Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar waith, gan gynnwys y gwaith ymchwil ac arloesi sy'n rhan hanfodol ac annatod o feysydd y Fframwaith. Fodd bynnag, dim ond cynnydd cyfyngedig y gall y gwaith hwn ei gyflawni heb fod y cyllid gwirioneddol ar gael a heb ymrwymiad clir gan Lywodraeth y DU o ran y setliad datganoli er mwyn rhoi'r Fframwaith ar waith.

Yn y cyfamser, rydym yn croesawu ymgysylltiad parhaus y DU â rhaglen Horizon yr UE, ac mae tîm Horizon Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar rwydwaith Pwynt Cyswllt Cenedlaethol y DU a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a byddwn yn cefnogi busnesau a phrifysgolion Cymru i sicrhau cymaint o rôl yn hynny o beth ag sy'n bosibl wrth i Horizon Ewrop gael ei gymeradwyo'n ffurfiol a'i lansio dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Goblygiadau Ariannol

Amrywiol, yn unol â'r ymateb uchod.